

Cyngor Celfyddydau Cymru

Adolygiad Buddsoddi 2020

Gwneud Apêl

DRAFFT

Tachwedd 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Cynnwys

1. Diben y ddogfen hon.....	4
2. Penderfynu a oes gennych sail i'ch apêl	4
3. Sut i apelio.....	6
4. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi wneud apêl?	6
5. Ystyriaeth lawn i'ch apêl	7
6. Gwrandawriad yr apêl	8
7. Y broses ar ôl y gwrandawriad	10
Adolygiad Buddsoddi 2020 – amserlen apelio.....	12

1. Diben y ddogfen hon

- 1.1 Yn ystod 2020 cyhoeddwn ein cynlluniau at y dyfodol o ran ariannu Portffolio o sefydliadau allweddol ledled Cymru. Mae'n debyg y bydd rhagor o newidiadau yn lefelau'r arian a gynigiwn a hefyd i'r sefydliadau a gefnogwn. Mae'n bosibl y caiff sefydliadau leihad yn y lefelau arian o'i gymharu â'r hyn a gawsant gynt neu ddiddymiad o'r arian hwnnw.
- 1.2 Yn y ddogfen hon esboniwn yr hawl i apelio a'r weithdrefn gysylltiedig a fydd ar gael i unrhyw sefydliad sy'n anfodlon ar ein penderfyniad ariannu. Mae'r weithdrefn apelio yn gymwys i Adolygiad Buddsoddi 2020 yn unig. Os oes gennych gwynion am unrhyw fater arall, dilynwch y gweithdrefnau safonol a ddisgrifir yn ein [Gweithdrefn Gwyno](#). Mae'r dogfen hon ar gael ar ein gwefan.
- 1.3 Pan fo'r ddogfennaeth yma'n cyfeirio at deitlau swyddi penodol, gall y rhain newid yn achos absenoldeb neu diffyg argaeledd neu os yw teitl y swydd wedi'i newid. Ni fydd camau'r broses yn newid.

2. Penderfynu a oes gennych sail i'ch apêl

- 2.1 Gwyddom nad pleser o'r mwyaf yw gorfod gwneud apêl. Felly ymdrechwn ymdrech deg i gyrraedd penderfyniadau sy'n glir, yn deg ac yn gyson â'n polisiâu a'n blaenoriaethau datganedig. Serch hynny, os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y cyraeddasom ein penderfyniad ac am wneud apêl, mae'n bwysig eich bod yn glir am sail eich apêl.
- 2.2 Un o gyfrifoldebau pwysicaf Cyngor Celfyddydau Cymru yw gwneud penderfyniadau strategol am ddyrannu arian y cyhoedd.

Safon ac effeithiolrwydd yw'r ddeubeth pwysicaf. Hoffem fuddsoddi mewn portffolio o sefydliadau a all arddangos hanes hysbys o lwyddo neu sydd â'r gallu clir i ragori. Hoffem gefnogi sefydliadau llwyddiannus iawn a all gael effaith arwyddocaol ar fywyd diwylliannol Cymru gyfan. Dibynna'r graddau y gallwn gyflawni'r nod hwn ar yr arian sydd ar gael a'r penderfyniadau strategol a wnawn. Pan fo'r galw am arian yn uwch na'r arian sydd ar gael inni, ac er mwyn cyflawni ein huchelgais ar gyfer celfyddydau Cymru, yn aml wynebwn ddewisiadau anodd a heriol. Gan ddefnyddio ein barn broffesiynol mae'n bosibl y cyrhaeddwn benderfyniadau sy'n amhoblogaidd neu rai na chânt groeso gan sefydliad. Yn ôl ein Gweithdrefn Apelio, nid yw hyn ynddo ei hun yn sail ddigonol am apêl.

- 2.3 Os ystyriwch wneud apêl, dylech ystyried yn ofalus yr hyn a geisiwn ei gyflawni drwy ein Hadolygiad Buddsoddi. Disgrifir rhesymeg yr Adolygiad Buddsoddi yn ei Gylch Gorchwyl. Ymgynghorwyd yn eang iawn ar y Cylch Gorchwyl hwn yn gynharach yn y

flwyddyn a chadarnhawyd y fersiwn derfynol (sydd ar gael ar ein gwefan) gan y Cyngor.

- 2.4 Gwyddom mai un o'r canlyniadau posibl i'r Adolygiad Buddsoddi yw tynnu/lleihau arian sefydliad a ariannwyd gennym gynt. Golyga hyn, felly, na ellwch apelio yn erbyn tynnu/lleihau grant ar y sail - ac ar y sail honno'n unig - fod y Cyngor wedi penderfynu ymgymryd ag Adolygiad Buddsoddi.
- 2.5 Disgrifir sail ein hasesiad a'n penderfyniadau yng Nghylch Gorchwyl yr Adolygiad Buddsoddi. Cyfeiria hwn yn arbennig at ein Cynllun Corfforaethol, *Er Budd Pawb*, sy'n disgrifio ein gweledigaeth am y dyfodol. Mae'n cyfeirio hefyd at ein Fframwaith Ansawdd, *Ymdrechu i Ragori*, a ddisgrifia'r nodweddion y disgwyliwn eu gweld mewn cwmnïau llwyddiannus. Mae'r dogfennau hyn yn bwysig iawn ac mae copïau ar gael ar ein gwefan.
- 2.6 Wrth wraidd ein hasesiad a'n proses benderfynu fydd y cais a luniasoch gydag unrhyw wybodaeth arall a fanylasom arni'n rhan o'r broses ymgeisio. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau y derbynnir eich cais, yn llawn, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Ni dderbyniwn geisiadau hwyr neu unrhyw ddeunyddiau ychwanegol yr hoffech eu cyflenwi'n rhan o'ch cais os deuent yn hwyrach na'r dyddiad cau. Gellwch ddim ond apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru o ran y cyflwyniad hwnnw a wnaethoch yn rhan o broses yr Adolygiad Buddsoddi.
- 2.7 Gellwch ddim ond apelio os oes gennych dystiolaeth benodol sy'n arddangos un neu ragor o'r canlynol:
- ni ddilynasom y gweithdrefnau cyhoeddedig am asesu eich cais;
 - camddeallasom ran arwyddocaol o'ch cais;
 - ni chymerasom sylw o wybodaeth berthnasol, hynny yw, y wybodaeth a gymerasom i ystyriaeth fel y diffinnir yn nogfen y **Cylch Gorchwyl**.
- 2.8 Os ystyrir eich apêl yn gymwys i gael gwrandawriad (gweler adran 4 isod), â ymlaen at y Panel Apêl ("y Panel"). Nid yw'r Panel yn dribiwnlys cyfreithiol a gweithreda ar sail synnwyr cyffredin a thegwch.
- 2.9 Cyfrifoldeb aelodau o'r Cyngor yw pob penderfyniad am arian y Portffolio. Ymgynghorol felly yw penderfyniadau'r Panel a byddant ar ffurf argymhellion i'r Cyngor.
- 2.10 Nid oes hawl i apelio yn erbyn y swm a ddyfarnwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru heblaw bod un o'r seiliau apelio a nodwyd yn 2.7 yn gymwys.
- 2.11 Nid oes hawl apelio yn erbyn penderfyniad o ran sefydliad arall.

3. Sut i apelio

- 3.1 Bydd yn rhaid gwneud unrhyw apêl ar y Ffurflen Apelio (Atodiad 1). Gellwch gael copi o'n gwefan. Ni dderbynnir unrhyw ddull arall o apelio.
- 3.2 Bydd yn rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Apelio'n gyflawn, gan ddarparu rhesymau manwl am sail yr apêl fel y disgrifir ym mharagraff 2.7. Er enghraifft, ni fydd yn ddigonol i honni'n syml mai anghywir yw penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yn rhaid ichi hefyd ddweud ym mha ffordd y mae'r penderfyniad yn anghywir a'r sail ar gyfer yr honiad hwnnw. Gellid barnu bod apêl na rydd resymau digonol yn anghymwys (gweler adran 4 isod).
- 3.3 Bydd yn rhaid nodi'n glir a diamwys unrhyw ddetholiad o'r cais yn y Ffurflen Apelio. Nid ystyrir unrhyw wybodaeth ddiwygiedig neu ychwanegol; bydd yn rhaid i'r apêl fod yn berthnasol i'r wybodaeth a ddarparasoch yn rhan o'ch cais neu'r wybodaeth berthnasol, ychwanegol fel y diffinnir yn nogfen y **Cylch Gorchwyl**, sydd gennym ac sydd wedi, neu y dylai fod wedi, ei hystyried yn ystod broses asesu a phenderfynu Cyngor Celfyddydau Cymru.
- 3.4 Bydd yn rhaid i'r Ffurflen Apelio gael ei llofnodi gan uwch cynrychiolydd o staff eich sefydliad a Chadeirydd eich Bwrdd (neu uwch aelod o'r corff rheoli sy'n goruchwyllo eich gwaith).
- 3.5 Bydd yn rhaid inni dderbyn apeliadau erbyn 4pm a hynny 21 o ddiwrnodiau calendr ar ôl y llythyr sy'n hysbysu'r penderfyniad a apelir.

Dylai apeliadau fod ar ffurf electroneg a dylid eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost canlynol: apeliadau@celf.cymru

Serch hynny, os na ellwch am amryw resymau gyflwyno eich apêl yn drydanol, anfonwch gopi caled mewn amlen wedi'i chyfeirio at:

Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

- 3.6 Ni dderbynnir apeliadau hwyr.

4. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi wneud apêl?

- 4.1 Y cam cyntaf yn y broses yw'r **Ystyriaeth Gychwynnol**. Ymgymerir â'r cam hwn gan rywun annibynnol ac allanol, ("yr Adolygydd"). Defnyddiwn adolygydd cwynion

annibynnol i ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Ei nod fydd penderfynu a yw'ch apêl yn gymwys am wrandawriad gan y Panel Apelio ar un neu ragor o'r seiliau a amlinellir ym mharagraff 2.7 uchod. Diben hyn yw osgoi gwastraffu adnoddau gan eich sefydliad a Chyngor Celfyddydau Cymru os penderfyna'r Adolygydd na fydda'n bosibl i'r apêl lwyddo.

- 4.2 Ystyria'r Adolygydd yr apêl er mwyn penderfynu ar dri mater o egwyddor. Dyma hwy:
- **a wnaed eich apêl yn gywir** – sef bod y ffurflen wedi'i llenwi'n iawn a'i llofnodi ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;
 - **a yw'ch apêl yn brydlon** – sef i'ch apêl ein cyrraedd erbyn 4pm a hynny 21 o ddiwrnodiau calendr ar ôl y llythyr sy'n hysbysu'r penderfyniad a apelir;
 - **a yw'ch apêl yn seiliedig ar gamdybiaeth** – sef naill ai na seilir eich apêl ar un neu ragor o'r seiliau apelio a nodir ym mharagraff 2.7 uchod, neu fod sail eich apêl yn hollol annigonol.
- 4.3 Os penderfyna'r Adolygydd na wnaed eich apêl yn gywir, a/neu ei fod yn rhy hwyr, a/neu y seilir hi ar gamdybiaeth, gwrthodir yr apêl.
- 4.4 Mae penderfyniad yr Adolygydd yn derfynol. Nid oes hawl bellach i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.
- 4.5 Rhydd yr Adolygydd wybod ichi ac i Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes Cyngor Celfyddydau Cymru am ei benderfyniad. Gwneir hyn mewn 16 o ddiwrnodiau calendr o ddyddiad cau cyflwyno'r apêl. Cynnwys y llythyr grynoded o resymau gwrthod yr apêl a rydd wybod ichi am eich hawl i fynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gweler paragraff 7.6).
- 4.6 Edrydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes am y penderfyniad wrth Brif Weithredwr ac aelodau o Gyngor Cyngor Celfyddydau Cymru.
- 4.7 Ni chaiff yr Adolygydd gysylltu â chi o gwbl ar yr adeg hon a bydd yn rhaid iddo ymgymryd ag Ystyriaeth Gychwynnol ar sail y wybodaeth sydd yn yr apêl a'r wybodaeth honno'n unig. Felly mae er eich budd chi i sicrhau bod pob gwybodaeth berthnasol yr hoffech gael ei hystyried yn nogfennaeth gyffredinol yr apêl.
- 4.8 Arfer yr Adolygydd ei grymoedd yn rhesymol a chyda chyffyrddiad ysgafn. Os oes ganddo unrhyw amheuaeth ynghylch gwrthod neu dderbyn eich apêl ar yr adeg hon, caiff eich apêl ei derbyn ac â ymlaen at gam y gwrandawriad.

5. Ystyriaeth lawn i'ch apêl

- 5.1 Os na wrthodir eich apêl yn ystod yr Ystyriaeth Gychwynnol, rhydd y Panel Apeliadau ystyriaeth lawn iddi.

- 5.2 **Cyfansoddiad y Panel Apelio:** Cynnwys y Panel Apeliadau dri aelod allanol, annibynnol a dynodir un ohonynt yn Gadeirydd. Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes Cyngor Celfyddydau Cymru fydd gynullydd y Panel Apeliadau ond ni chwery ran yn y broses o gyrraedd penderfyniad am eich apêl.
- 5.3 Mewn 6 diwrnod calendr o gael y llythyr am benderfyniad yr Adolygydd oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, rhydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes wybod i Brif Weithredwr ac aelodau o Gyngor Cyngor Celfyddydau Cymru a Chadeirydd y Panel Apelio y caiff yr apêl ei hysytried yn llawn.
- 5.4 Gall Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru roi cyflwyniad ysgrifenedig i'r Panel Apelio os gwêl yn dda. Gorffenna'r Prif Weithredwr ei gyflwyniad mewn 21 o ddiwrnodiau calendr o gael gwybod am benderfyniad yr Adolygydd ac anfonir copi ohono at y sefydliad sy'n apelio.
- 5.5 Cysyllta Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes Cyngor Celfyddydau Cymru ar adeg cael yr apêl â phob aelod o'r Panel Apelio i bennu dyddiad, amser a lle cyfleus am y gwrandawriad. Ysgrifenna atoch ac at Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Rhydd wybod iddynt fod yr apêl i'w hysytried gan y Panel Apelio a nodi'r dyddiad, amser a lle am y gwrandawriad.
- 5.6 Bydd gan Gadeirydd y Panel Apelio y grym i newid dyddiad, amser neu le'r gwrandawriad am reswm da ar unrhyw adeg ar gais. Bydd yn rhaid i ddyddiad gwrandawriad yr apêl fod erbyn 28 o ddiwrnodiau calendr o dderbyn gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes benderfyniad yr Adolygydd am yr apêl. Os yw'r partïon yn cytuno fel arall, neu os yw'n hollol anymarferol i gynnal y gwrandawriad yn y cyfnod hwnnw, bydd yn rhaid ei gynnal ar yr adeg fwyaf buan wedyn sy'n ymarferol.
- 5.7 Anfonir copïau llawnion o'r Ffurflen Apelio ac unrhyw ymateb i Gyngor Celfyddydau Cymru o leiaf 7 diwrnod calendr cyn dyddiad y gwrandawriad at yr aelodau o'r Panel Apelio a ystyria'r apêl.

6. Gwrandawriad yr apêl

- 6.1 Nod y gwrandawriad yw gadael i bob aelod o'r Panel gael dealltwriaeth lawn o resymau Cyngor Celfyddydau Cymru am ei benderfyniad a'r rhesymau dros eich apêl chi er mwyn gallu penderfynu'n deg ar yr apêl.
- 6.2 Cworwm y Panel Apelio yw tri aelod annibynnol lle dynodir un ohonynt yn Gadeirydd.

- 6.3 Ni all unrhyw aelod o'r panel wrando ar apêl os oes ganddo unrhyw ymwneud sylweddol â'r penderfyniad a apelir neu os oes ganddo neu gan ei deulu unrhyw fudd yn eich sefydliad.
- 6.4 Cyn y gwrandawriad gall y Panel Apelio, yn ei ddoethineb, ymgysgu i ystyried y materion a godir gan yr apêl a phroses y gwrandawriad.
- 6.5 Ystyria'r Panel Apelio y materion a godir gan y partiön yn yr apêl ac yn ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru a rheiny'n unig. Ni ellir ymdrin ag unrhyw faterion eraill gan y Panel Apelio yn y gwrandawriad.
- 6.6 Bydd gennych chi a chan Gyngor Celfyddydau Cymru yr hawl i ymddangos yn y gwrandawriad a chael eich clywed. Gall yr un o'r ddau barti ddewis peidio ag ymddangos a gofyn i'r apêl gael ei phenderfynu ar sail y sylwadau ysgrifenedig yn unig. Bydd yn bosibl y cynrychiolir chi a Chyngor Celfyddydau Cymru gan hyd at ddau o bobl o'u dewis yn y gwrandawriad, heb gynnwys unrhyw rai sydd yno at ddiben darparu cefnogaeth gyfathrebu'n unig i unrhyw barti (e.e. cyfieithwyr Arwyddeg).
- 6.7 Cynhelir y gwrandawriad yn breifat ac yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis yr apelydd.
- 6.8 Dylai proses y gwrandawriad fod mor anffurfiol â phosibl a fyddai'n gyson â'r amcanion a nodir ym mharagraff 6.1 uchod a'r angen am wrandawriad teg i bawb perthnasol. Yn ddarostyngedig i'r hyn a ddilyn, y Cadeirydd yn unig fydd yn gyfrifol am benderfynu ar yr union broses i'w dilyn yn y gwrandawriad a sut y cynhelir yr apêl yn gyffredinol. Bydd y broses a fabwysiedir yn y gwrandawriad yn cynnwys yr elfennau canlynol:
- 6.8.1 Esbonia cynrychiolydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn fyr wrth y Panel Apelio y penderfyniad a apelir, y rhesymau am y penderfyniad, ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i'r apêl a'r ymateb i unrhyw faterion a godir gennych cyn ac yn ystod y gwrandawriad. Gall y cynrychiolydd gyfeirio at unrhyw dystiolaeth ddogfennol berthnasol i gyfiawnhau penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru cyn belled bod y deunydd wedi'i gopïo gynt i chi a'r Panel Apelio.
- 6.8.2 Gwahoddir eich cynrychiolydd i esbonio'n fyr wrth y Panel Apelio y rhesymau am yr apêl a pham eich bod yn anfodlon ar y penderfyniad. Gellwch gyfeirio at unrhyw dystiolaeth ddogfennol berthnasol i gyfiawnhau eich apêl cyn belled â'ch bod wedi copïo'r deunydd a'i anfon at y Panel Apelio a'i fod yn rhan o'ch cais gwreiddiol i Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru. Cewch gyfle i wneud sylwadau ar bob mater a godir gan Gyngor Celfyddydau Cymru cyn ac yn ystod y gwrandawriad.

- 6.8.3 Gall yr aelodau o'r Panel Apelio ofyn cwestiynau i unrhyw un sydd yn y gwrandawriad y cred ei bod yn berthnasol i'r apêl.
- 6.8.4 Ar ddiwedd y gwrandawriad, rhoddir y cyfle i'r ddau barti grynhoi'n fyr eu safbwynt a gwneud unrhyw sylwadau terfynol yr hoffent eu cyflwyno sy'n berthnasol i unrhyw fater a godir yn y gwrandawriad gan y parti arall a'r Panel Apelio.
- 6.9 Os methwch chi neu'ch cynrychiolydd ag ymddangos yn y gwrandawriad, gallai'r Panel Apelio yn ei ddoethineb ac ar ôl ymfodloni i'r rhybudd priodol gael ei roi am y dyddiad, amser a lle, wrando ar yr apêl yn eich absenoldeb, neu wrthod yr apêl heb ei gwrando.
- 6.10 Mae'r baich profi ar y sefydliad sy'n apelio. Mewn geiriau eraill, bydd yn rhaid ichi brofi hyd fodlonrwydd y Panel Apelio fod sail i'ch apêl yn erbyn penderfyniad ariannu Cyngor Celfyddydau Cymru.

7. Y broses ar ôl y gwrandawriad

- 7.1 **Grymoedd y Panel Apelio.** Yn sgil y gwrandawriad, yn absenoldeb cynrychiolwyr y partïon, ystyria'r Panel Apelio ei benderfyniad. Mae gan bob aelod o'r Panel bleidlais gan gynnwys y Cadeirydd. Mae tri phenderfyniad posibl gerbron y Panel Apelio:
- caniatáu'r apêl
 - parhau â'r gwrandawriad ar ddyddiad yn y dyfodol
 - gwrthod yr apêl
- 7.2 **Amser am roi'r penderfyniad.** Bydd yn rhaid anfon yn ysgrifenedig benderfyniad y Panel Apelio gyda ei resymau ategol a, lle bo'n briodol, ei argymhellion at y ddau barti mewn 7 diwrnod calendr o'r gwrandawriad. Bydd yn rhaid adrodd am y penderfyniad gyda'r rhesymau ategol a, lle bo'n briodol, yr argymhellion ar yr un pryd wrth Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru.
- 7.3 **Caniatáu apêl.** Gall y Panel Apelio dim ond caniatáu'r apêl os yw'n fodlon bod un neu ragor o seiliau i'r apêl, sydd ym mharagraff 2.7 uchod. Os yw'r Panel Apelio'n caniatáu'r apêl, nid oes ganddo y grym i wneud penderfyniad o'r newydd. Yn lle hynny, bydd Cadeirydd y Panel yn rhoi gwybod ichi i'r Panel argymhell i Gadeirydd y Cyngor y dylid ailystyried y mater gan nodi sail y fath argymhelliad. Ystyrir argymhelliad y Panel Apelio yng nghyfarfod nesaf y Cyngor a chewch wybod am benderfyniad y Cyngor mewn 7 diwrnod calendr o ddyddiad y cyfarfod hwnnw.
- 7.4 **Parhad y gwrandawriad .** Os penderfyna'r Panel Apelio fod yn rhaid i'r gwrandawriad barhau, pennir dyddiad parhad y gwrandawriad, lle bo'n bosibl, yn y gwrandawriad cyntaf ac os nad yw hynny'n bosibl, cyn gynted â phosibl yn ysgrifenedig wedyn.

- 7.5 **Gwrthod apêl.** Ni ellir gwneud apêl bellach yn erbyn penderfyniad y Panel Apelio.
- 7.6 **Yr Ombwdsmon.** Os byddwch o'r farn y bu camweinyddu ar ein rhan, neu wrth inni gynnal yr apêl, bydd gennych hawl i fynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cynhyrchodd yr Ombwdsmon daflen sy'n esbonio sut i wneud cwyn. Mae hi ar gael gan Ganolfannau Cyngor ar Bopeth, llyfrgelloedd cyhoeddus ac yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pen-coed
CF35 5LJ

www.ombwdsmon-wales.org.uk

Adolygiad Buddsoddi 2020 – amserlen apelio

Dyddiad i'w gadarnhau

- Cyhoeddi penderfyniadau 'mewn egwyddor' y Cyngor a rhoi gwybod i'r ymgeiswyr
- 21 diwrnod calendr i ymgeiswyr apelio

21 diwrnod

- Dyddiad cau apelio

16 diwrnod

- Dyddiad cau i'r Adolygydd Annibynnol roi gwybod i'r Cyngor a'r person sy'n apelio am ei benderfyniad ar yr apêl

28 diwrnod

- Dyddiad cau i'r panel apeliadau gwrdd a chlywed apeliadau

7 diwrnod

- Dyddiad cau i'r panel apeliadau roi gwybod i'r person sy'n apelio a Chadeirydd y Cyngor am y penderfyniad

Dyddiad i'w gadarnhau

- Cyngor yn cwrdd i ystyried penderfyniadau'r Panel Apeliadau a chytuno ar lefelau ariannu'r Portffolio newydd

7 diwrnod ar ôl Cyngor

- Dyddiad cau i'r Cyngor roi gwybod i'r person sy'n apelio am ei benderfyniad